

CYFARFOD:	PWYLLGOR PENSIYNAU
DYDDIAD:	16 IONAWR 2020
TEITL:	DATGANIAD STRATEGAETH CYLLIDO 2020/21-2023/24
PWRPAS:	I gadarnhau'r tybiaethau yn y Datganiad Strategaeth Cyllido
ARGYMHELLIAD:	CADARNHAU'R TYBIAETHAU
AWDUR:	DELYTH JONES-THOMAS, RHEOLWR BUDDSODDI

1. CYFLWYNIAD

- 1.1 Mae'n ofynnol arnom i adolygu a chyhoeddi Datganiad Strategaeth Cyllido (DSC) teirblynyddol erbyn 31 Mawrth 2020. Cafodd DSC cyfredol Gwynedd ei gymeradwyo gan y Pwyllgor Pensiynau ar 16 Mawrth 2017.
- 1.2 Fel rhan o'r adolygiad bydd yn rhaid i'r awdurdod sy'n gweinyddu ymgynghori gyda'r cyflogwyr sy'n rhan o'r cynllun, yr actiwari ac ymgynghorwyr y gronfa, ac unrhyw rai eraill rydym yn ystyried yn addas.

2. PRISIAD ACTIWARAIDD

- 2.1 Mae prisiad actiwaraidd tair blynyddol y Gronfa yn cael ei gwblhau ar hyn o bryd. Cynhaliwyd cyfarfod cyflogwyr ar 24 Hydref 2019 pan gyflwynwyd a thrafodwyd y canlyniadau actiwaraidd rhagarweiniol. Mae adroddiadau terfynol yn cael eu paratoi ar gyfer pob cyflogwr ar hyn o bryd.
- 2.2 Paratowyd y prisiad actiwaraidd gan ddefnyddio rhagdybiaethau y cytunwyd arnynt gyda'r actiwari. Mae'r cyfnodau adfer diffyg ar gyfer y gwahanol gategoriâu o gyflogwr yn ddarvoudus ac yn gyson gyda'r prisiad blaenorol.
- 2.3 Fel rhan o brisiad 2013 a 2016, penderfynodd y pwyllgor hwn diddymu'r ddau bwll ar gyfer cyflogwyr llai ac y dylai yswiriant salwch fod yn orfodol i'r cyflogwyr perthnasol. Bydd hyn yn parhau yn dilyn prisiad 2019.
- 2.4 Dangosodd y canlyniadau rhagarweiniol a ddarparwyd ym mis Hydref 2019 fod nifer o gyflogwyr bellach gyda gwarged ac felly nid oes ganddynt unrhyw daliadau diffyg i'w gwneud dros y tair blynedd nesaf. Bydd y cyflogwyr yn y sefyllfa yma yn gweld gostyngiad mewn cyfraniadau trwy gyfradd eilaidd negyddol. Nid yw pob cyflogwr yn y sefyllfa yma ac felly bydd gofyn iddyn nhw dalu cyfraniad diffyg bob mis.

3. DATGANIAD STRATEGAETH CYLLIDO DRAFFT (DSC)

3.1 Gweler copi drafft o'r DSC yn atodiad A.

3.2 Mae angen i'r Pwyllgor yn awr gadarnhau'r polisiau yn y DSC drafft cyn yr ymgynghoriad â holl gyflogwyr y Gronfa. Gofynnir i'r Pwyllgor benderfynu ar y materion a ganlyn.

3.3 CYFRIFO CYFRAN ASEDAU

Tan 31 Mawrth 2016 defnyddiodd yr awdurdod gweinyddu y dull 'dadansoddi gwarged' i ddosrannu asedau'r gronfa rhwng cyflogwyr unigol. Ers hynny, mae'r Gronfa wedi mabwysiadu dull 'llif arian' ar gyfer olrhain asedau cyflogwyr unigol. Dull 'llif arian' yw pan fydd asedau cyflogwr yn cael eu olrhain dros amser gan ganiatáu ar gyfer llif arian delir i mewn, llif arian delir allan a dychweliadau buddsoddiadau ar asedau'r cyflogwyr. Rhennir y gwahaniaeth rhwng y cyflogwyr fel cyfran o'u cyfrannau asedau ym mhob prisiad tair blynedd.

3.4 PREMIWM RISG ECWITI

Dyma'r enillion dros ben a ragwelir o ecwitiau o'i gymharu â'r adenillion o giltiau. Mae hyn yn cyfeirio at y gwahaniaeth rhwng yr adenillion disgwylidig a gyflawnir gan ecwitiau a'r enillion disgwylidig o giltiau. Wrth i'r gwahaniaeth tybiedig rhwng yr adenillion disgwylidig gynyddu, mae'r risg yn cynyddu a'r sail ariannu yn mynd yn llai darbodus. Mae'r enillion dros ben a ragwelir o'r dybiaeth ecwitiau a ddefnyddiwyd ym mhrisiad 2019 yn 1.7%, sydd yr un peth â phrisiad 2016.

3.5 CYFNODAU ADFER Y DIFFYG

Ym mhrisiad 2019 cyflwynodd yr awdurdod gweinyddu gyfnodau adfer y diffyg fel y ganlyn:

- Cyrff ar yr atodlen – 17 mlynedd
- Coleg, Cyrff Cymunedol a Ganiateir a Chyflogwyr Dynodedig (ar agor i newydd-ddyfodiaid) – 14 mlynedd
- Coleg, Cyrff Cymunedol a Ganiateir a Chyflogwyr Dynodedig (ar gau i newydd-ddyfodiaid) – Oes gwaith y dyfodol
- Cyrff Trosglwyddai a Ganiateir – cyfnod y cytundeb presennol.

3.6 CASGLU DIFFYG

Mae cyflogwyr sydd mewn diffyg yn talu cyfraniadau cyflogwr ychwanegol er mwyn adennill y diffyg. Y polisi a fabwysiadwyd ar gyfer prisiad 2013 a 2016 oedd y byddai taliadau diffyg yn cael eu mynegi fel cyfandaliad blyneddol i'w dalu mewn 12 rhandaliad misol fel rhan o'u cyfraniad cyflogwr. Y polisi ar gyfer prisiad 2019 yw y bydd hyn fel canran o dâl.

3.7 CYFLOGWR SEFYDLOG

Ar sail gwaith modelu helaeth a wnaed ar gyfer ymarfer prisio 2019, cytunwyd bod rhaid i bob cyflogwr sefydlog dalu ei gyfradd sylfaenol fel lleiafswm dros y tair blynedd nesaf. Gall gostyngiad yng nghyfanswm y gyfradd gael ei gymhwyso yn ddarostyngedig i gyfyngiad sy'n ddibynnol ar lefel ariannu 2019 (h.y. cyfyngiad o 1.0% o dâl os rhwng 100% a 104%, 1.5% o dâl os rhwng 105% a 119%, a 2.0% o dâl os 120% neu uwch).

3.8 **CYFLOGWR ANSEFYDLOG**

Mae cyflogwyr agored ansefydlog (ac eithrio cyrff trosglwyddai a ganiateir) yn ddarostyngedig i fecanwaith cyfnod. Mae hyn yn gweithio drwy gyfrifo'r gwahaniaeth yng nghyfanswm y cyfraddau ar 2016 a 2019 cyn cymhwyso'r mecanwaith, ac yna cyfyngu'r cynnydd neu'r gostyngiad dilynol fel a ganlyn:

- a) Os yw'r gwahaniaeth yn 5.0% neu llai o'r tâl, bydd y gyfradd yn newid yn ôl y gwahaniaeth llawn, neu
- b) Os yw'r gwahaniaeth yn fwy na 5.0% o'r tâl, yna bydd y gyfradd yn newid gan 5.0% ynghyd â hanner y gwahaniaeth uwchben 5.0%.

Mae'r cyfraddau cyfrannu ar gyfer cyflogwyr, sydd ar gau i newydd-ddyfodiaid, a sy'n anelu tuag at ddarfyddiad, wedi cael eu gosod yn gyfartal â chyfraddau sylfaenol y cyflogwyr.

3.9 **CYFNOD GRADDOL O GYNYDDU CYFRANIAD**

Ar wahân i'r Cyrff a Ganiateir, mae rheoliadau'n caniatáu i'r holl gyflogwyr eraill gynyddu eu cyfraniadau'n raddol. Ar gyfer prisiad 2019 gall y cynnydd gael ei rannu dros 3 blynedd. Bydd cyflogwyr sydd â gostyngiad yn eu cyfraddau cyfrannu yn symud yn syth i'r gyfradd honno ar 1 Ebrill 2020.

4. **CRYNODEB**

Cyn ymgynghori â chyflogwyr ar y Datganiad Strategaeth Cyllido, gofynnir i'r Pwyllgor gadarnhau'r rhagdybiaethau a'r polisiau a amlinellir yn adran 3 o'r adroddiad hwn.

Yn dilyn y broses ymgynghori bydd y Pwyllgor yn cael fersiwn derfynol o'r Datganiad Strategaeth Cyllido i'w fabwysiadu erbyn 31 Mawrth 2020.